

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Cyfarfod y Cyngor - 20fed Medi 2017 - Rhifau Cofnod 43-55

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Medi 2017 - Rhifau Cofnod 19-21

Pwyllgor Cynllunio - 4ydd Hydref 2017 - Rhifau Cofnod 22-25

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 4ydd Hydref 2017 - Rhifau Cofnod 62-73

3. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

4. CYFLWYNIAD: CIDEM CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 158 dyddiedig 19eg Ebrill 2017, derbyn cyflwyniad gan Ms Rhiannon Hughes mewn perthynas â Gŵyl Ffilmiau Ryngwladol Cidwm Cymru.

5. CYFLWYNIAD: MS SUE NASH, RHEOLWR CANOLFAN Y RHOSYN GWYN

Ymhellach i gofnod rhif 55 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Medi 2017, croesawu Ms Nash i'r cyfarfod.

6. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

7. EITEMAU ER GWYBODAETH

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

8. HOLI AC ATEB

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

10. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manyion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

11. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.